

Eitem: 19

Teitl: Cadarnhau Camau Gweithredu'r Cadeirydd

Gweithredu / Action required	I'w gadarnhau gan y Bwrdd
Amseru / Timing	Arferol
Argymhelliad / Recommendation	Gofynnir i'r Bwrdd gadarnhau'r adroddiad hwn ar gymeradwyo camau gweithredu'r Cadeirydd ers y cyfarfod diwethaf.
Risg / Risk	Os na fydd y Bwrdd yn cadarnhau'r adroddiad hwn, bydd risg y bydd Llais yn gweithredu neu'n gwneud penderfyniadau nad ydynt yn bodloni'r gofynion statudol perthnasol a'i Reolau Sefydlog ei hun.
Cyllid / Finance	Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn deillio o gadarnhau'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae yna ymrwymïadau ariannol o fewn rhai penderfyniadau a wnaed drwy gamau gweithredu'r Cadeirydd.
Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective	Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag Amcan 5 – yn enwedig ein blaenoriaeth i dyfu a gwella fel sefydliad, a bod yn sefydliad dibynadwy sy'n cael ei werthfawrogi gan bawb. Bydd trefniadau llywodraethu da yn ffactorau galluogi pwysig er mwyn sicrhau bod holl agweddau gwaith Llais yn cael eu gweithredu a'u cyflawni'n llwyddiannus, ac felly'n cyflawni'r holl brif amcanion.
Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion	Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol i ddulliau Llais o ymdrin â chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
Cyfathrebu / Communications	Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgarwch hwn yn cael effaith ar: Mewnol: ein pobl ☒ Allanol: ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒

	Allanol: enw da ein sefydliad ☒
Cymeradwyaeth / Approval/Clearance	Prif Weithredwr
Trafodaethau/ Penderfyniadau Blaenorol / Previous discussions/decisions	Mae'r Bwrdd eisoes wedi cadarnhau Camau Gweithredu'r Cadeirydd o dan ddarpariaethau Rheolau Sefydlog Llais. Dim ond pan fydd angen gwneud penderfyniadau brys rhwng cyfarfodydd ac nad oes angen galw cyfarfod ychwanegol y defnyddir Camau Gweithredu'r Cadeirydd.
Awdur/ Cyflwyno / Author/presenting	Richard Bevan, Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd
Dyddiad / Date	7 Hydref 2026
Cefndir / Background	
Cyflwynir yr adroddiad hwn at ddibenion cydymffurfio a rhoi sicrwydd, er mwyn sicrhau bod Llais yn cyflawni gofynion ei Reolau Sefydlog mewn perthynas â dogfennau y cytunwyd arnynt dan ddarpariaeth Camau Gweithredu'r Cadeirydd yn Rheolau Sefydlog Llais. Gellir defnyddio Camau Gweithredu'r Cadeirydd i gymeradwyo materion brys y byddai angen cymeradwyaeth y Bwrdd ar eu cyfer fel arfer, ond nad ydynt yn gofyn am alw cyfarfod ychwanegol. Ni ddarparwyd manylion llawn y cymeradwyaethau, ac ni chynhwyswyd gwerthoedd ariannol yn y wybodaeth, gan fod un o'r cymeradwyaethau yn ddarostyngedig i ddarpariaethau cyfrinachedd masnachol. Ceir trosolwg o'r cymeradwyaethau isod: Cymeradwyaeth 1: 24 Medi 2026 – Newidiadau arfaethedig i swyddfa ranbarthol Gwent/ adleoli'r swyddfa. Mae elfennau o'r gymeradwyaeth hon yn fasnachol gyfrinachol. Cymeradwywyd y cynnig gan y Cadeirydd a'i gymeradwyo gan y Prif Weithredwr a thri aelod anweithredol. Cymeradwyaeth 2: 24 Medi 2026 – Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Llais ar Safonau'r Gymraeg er mwyn ei baratoi i'w gyhoeddi erbyn y dyddiad gofynnol, sef 30 Medi 2026. Cymeradwywyd yr adroddiad gan y Cadeirydd a'i gymeradwyo gan y Prif Weithredwr, yn dilyn craffu manwl ac argymhelliad i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ei gyfarfod ar 23 Medi 2026.	
Manylion / Detail	

Gofynnir i'r Bwrdd nodi a chadarnhau'r Camau Gweithredu uchod gan y Cadeirydd.